UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

**RECRIWTIO A CHADW ATHRAWON – RHAI SYLWADAU GAN UCAC**

**Rydym yn croesawu'r ffaith fod Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn ymchwilio i faes 'Recriwtio a Chadw Athrawon'. Mae ein sylwadau yn dilyn yr is-benawadau a awgrymir ar wefan Senedd Cymru.**

**CEFNDIR**

Nid her newydd yw'r her o recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru, yn wir mae'n her sy'n wynebu gwledydd eraill y Deyrnas Unedig hefyd. Fodd bynnag, mae'n rhaid wynebu'r ffaith fod Cymru yn wynebu her ychwanegol, gan ei bod hefyd yn gorfod ystyried yr angen am weithlu dwyieithog, yn enwedig wrth gofio am y weledigaeth a'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyheadau Bil y Gymraeg ac Addysg.

Bu nifer o fentrau i gynyddu'r niferoedd sy'n dechrau ar yrfa addysgu, ac mae'r Llywodraeth yn honni, yn ôl geiriau Lynne Neagle yng nghyfarfod llawn y Senedd ar 22 Ionawr 2025, eu bod yn gwneud 'lots and lots and lots of work' [1] o ran recriwtio a chadw athrawon. Fodd bynnag, er y gwaith, eto i gyd erys y broblem, felly mae'n rhaid holi a yw'r ymdrechion a'r gweithredu wedi'u sianelu i'r cyfeiriad cywir.

**RHWYSTRAU I RECRIWTIO**

**Amodau gwaith athrawon -** un o'r prif rwystrau rhag denu mwy o athrawon i'r proffesiwn yw'r amodau gwaith. Mae materion fel llwyth gwaith, ymddygiad disgyblion, oriau gwaith, maint dosbarthiadau, agwedd rhieni i gyd yn cyfrannu at y broblem. Tystiolaeth clir ein haelodau yw fod y materion hyn wedi gwaethygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac, felly, yn cael effaith negyddol ar recriwtio athrawon. Mae'n siomedig iawn nad yw'r Llywodraeth wedi mynd i'r afael ag argymhellion Adolygiad Strategol CACAC a gomisiynwyd yn Rhagfyr 2021a'i ryddhau'n gyhoeddus yn Ebrill 2024 yn hyn o beth. Yn yr un modd, araf iawn yw'r Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r argymhellion amodau gwaith yn adroddiadau blynyddol diweddar CACAC.

**Cyllido ysgolion (toriadau)** - Mae cysylltiad agos iawn rhwng cynnydd mewn llwyth gwaith a chyllid ysgolion. Gyda thoriadau cyllidol mewn ysgolion, mae dosbarthiadau yn cynyddu o ran maint, mae llai o adnoddau, gan gynnwys llai o adnoddau dynol. Mae'r baich cynyddol yn cael ei ysgwyddo gan lai o unigolion. Nid yn unig mae dosbarthiadau mwy o faint yn fwy heriol i'w haddysgu, ond mae'r gwaith marcio yn

[1] Trawsgrifiad Cyfarfod Llawn y Senedd (paragraff 135) 22 Ionawr 2025

fwyfwy beichus hefyd, felly mae llwyth gwaith athrawon yn trymhau o fewn y dosbarth a thu hwnt i'r dosbarth. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld ysgolion yn gorfod cwtogi ar staff – yn wir, ychydig iawn o ysgolion sydd heb orfod wynebu heriau cyllidol ac felly mae'r pwysau'n fwy ar yr athrawon sy'n weddill.

**Diffyg hyblygrwydd y swydd -** Mae pobl ifanc heddiw yn wynebu marchnad waith sydd yn gyffredinol yn cynnig tipyn o hyblygrwydd o ran trefniadau gwaith – materion fel gweithio o bell, oriau hyblyg ayb. Mewn arolygon mae 'hyblygrwydd' yn ymddangos yn uchel iawn yn yr hyn y mae pobl ifanc yn ei geisio wrth chwilio am swydd. Mae 'gweithio gartref' wedi dod yn gyffredin iawn erbyn hyn. Yn wir, mae'r diffyg hyblygrwydd y proffesiwn addysg wedi ei amlygu fwyfwy wrth i swyddi eraill ddod yn fwy hyblyg, yn sgil Covid. Nid yw addysgu yn cynnig yr hyblygrwydd i allu mynychu digwyddiadau teuluol pwysig, mae'n cyfyngu'r gallu i fynychu gweithgareddau hamdden o ddewis. O ganlyniad, mae nifer yn ystyried bod y proffesiwn yn cyfyngu gormod ar eu rhyddid i wneud yr hyn y maent eisiau ei wneud ar adegau o'u dewis ac yn dewis dilyn proffesiwn a fydd yn cynnig gwell hyblygrwydd a gwell cydbwysedd o ran hamdden/bywyd teuluol a gwaith. Eto, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r sefyllfa, a thrafodaethau wedi bod gyda CACAC, ond does dim wedi newid.

**Swyddi mwy apelgar** – Mae graddau/astudiaethau mewn rhai meysydd yn agor drysau i swyddi sy'n talu'n arbennig o dda ac mae'r amodau gwaith yn ffafriol. Mae angen i swydd athro fod yn swydd apelgar – yn cynnig amodau gwaith da ac yn talu'n dda. Mater arall sy'n gwneud swydd yn apelgar yw llwybr penodol, gyda chamau a cherrig milltir sy'n arwain at ddatblygiad pendant. Nid yw hyn yn wir am faes addysg. Nid yn unig fe ddylid cynnig cefnogaeth a chyfleoedd dyrchafiad/datblygu wrth weithio ond mae angen cefnogaeth hefyd i ddarpar athrawon drwy gydol eu llwybr hyfforddiant.

Byddai'n syniad targedu disgyblion ysgol a myfyrwyr yn gynnar a'u hannog i ddilyn gyrfa ym myd addysg, gan nodi beth yw'r manteision o ddilyn gyrfa yn y maes a rhoi cyfleoedd i ddisgyblion hŷn mewn ysgolion i ennill sgiliau addysgu a hyfforddi. Gan gofio fod prinder athrawon mewn rhai pynciau, beth am geisio annog disgyblion i ystyried pynciau Safon Uwch penodol, os oes ganddynt allu a diddordeb yn y pynciau hynny, gan dynnu eu sylw at werth y pynciau hynny ar gyfer dilyn gyrfa yn y dyfodol. Mae'n allweddol fod athro yn gweld ei waith mewn modd cadarnhaol er mwyn gallu rhannu neges bositif â disgyblion. Yn anffodus, oherwydd llwyth ac amodau gwaith nid ydynt mewn sefyllfa I wneud hynny yn aml.

**Lleoliad –** Mae'n bwysig bod y cyrsiau hyfforddi athrawon ôl-radd mewn lleoliadau sydd ynghlwm wrth sefydliadau sy'n cynnig graddau cyntaf. Gall y ffaith nad oes cwrs hyfforddi athrawon yn Aberystwyth erbyn hyn effeithio ar niferoedd a fydd yn dewis dilyn cyrsiau hyfforddi athrawon. Dylai pob prifysgol yng Nghymru feddu ar gwrs ôl-radd i hyfforddi athrawon.

**FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR GADW ATHRAWON YN Y PROFFESIWN**

**Ymddygiad disgyblion –** Mae problemau cynyddol o ran cadw trefn ar ddisgyblion a disgyblion a rhieni yn dangos diffyg parch cyffredinol at athrawon. Canlyniad hyn yw fod athrawon yn torri calon. Mae treulio oriau yn paratoi yn ymddangos yn 'wastraff' os nad yw disgyblion yn dangos parch ac os treulir canran uchel o wers yn cael trefn ar blant.

**Digwyddiadau treisgar, difrifol mewn ysgolion** - Mae nifer o athrawon bellach yn sôn am deimlo dan fygythiad wrth fynd i'r ysgol ac rydym oll yn arswydo wrth feddwl am yr hyn ddigwyddodd yn Ysgol Dyffryn Aman. Yn anffodus, mae enghreifftiau o ddigwyddiadau treisgar ar gynnydd, a bellach nid yw'r problemau hyn wedi eu cyfyngu i ddinasoedd mawr, mewn ardaloedd penodol. Mae digwyddiadau diweddar wedi dangos y gallu digwyddiadau difrifol ddigwydd yn unrhyw le.

**Agweddau rhieni –** Nid yn unig mae agweddau disgyblion wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gan waethygu'n benodol ers Covid), ond mae athrawon hefyd yn nodi fod agweddau rhieni wedi dirywio'n sylweddol. Mae rhieni yn herio penderfyniadau ysgolion mewn perthynas â disgyblu plant, yn cwestiynu rheolau, yn gwrthod cydweithio gydag ysgolion. Gall eu hymddygiad fod yn heriol a bygythiol ar brydiau, gan ymddangos mewn ysgolion heb rybudd a chan ddangos diffyg parch tuag at staff ysgolion.

**Llwyth gwaith -** Mae gorfod gweithio am oriau maith bob dydd – paratoi, marcio, gwaith gweinyddol, yn peri i unigolion adael y proffesiwn. Mae angen gosod ffiniau pendant i oriau gwaith athrawon, gan sicrhau fod gwir werth i unrhyw dasg weinyddol ayb. Mae llwyth gwaith gormodol yn cael effaith ddifrifol ar athrawon. Mae'n gosod straen annerbyniol arnynt ac yn effeithio ar eu canfyddiad o addysgu fel gyrfa a hefyd yn effeithio ar ganfyddiad 'darpar' athrawon posibl o natur y swydd. Yn ôl cyn athrawes mewn erthygl yn Y Cymro, 'Mae natur swydd athro yn arwain at flinder a lludded sy'n llethu rhywun. Roedd gwneud tair swydd i dalu rhent, ar ôl gadael y proffesiwn dysgu, yn llawer haws i mi na bod yn athrawes.'[2]

Eto, mae cydnabyddiaeth llywodraethol fod heriau yn y maes - ond prin iawn yw'r gweithredu i wella'r sefyllfa yn y blynyddoedd ddiweddar.

**Diwygiadau cyson ym myd addysg, sydd yn golygu pwysau ychwanegol ar athrawon –** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae athrawon wedi gorfod ymdopi gyda chwricwlwm newydd, cymwysterau newydd (TGAU), Deddf newydd o ran ADY, heb sôn am newidiadau eraill o fewn ysgolion. Mae'r newidiadau hyn wedi golygu llwyth o waith i athrawon ac mae perygl fod athrawon yn cael eu cymryd yn ganiataol. Mae disgwyl iddynt ddod o hyd i amser i ddilyn hyfforddiant ar-lein ar gyfer y cyrsiau newydd, i ddarllen y manylebau newydd, i baratoi deunyddiau ar gyfer y cyrsiau newydd. Mae hyn

---

[2] Y Cymro, Gorffennaf 7 2024 tudalen 4

i gyd yn digwydd o fewn cyd-destun o doriadau cyllidol, diswyddiadau a heriau cymdeithasol enfawr.

**Diffyg cefnogaeth i athrawon –** Mae'r proffesiwn yn teimlo ar adegau nad oes gefnogaeth iddynt a bod dysgwyr, rhieni a chymdeithas yn negyddol a beirniadol iawn. Nid oedd sylwadau Cymwysterau Cymru wrth ohirio cyflwyno'r TGAU newydd yn rhoi darlun cadarnhaol o'r proffesiwn. Siom i athrawon oedd darllen sylwadau Cymwysterau Cymru ar y pryd, sef mai'r rheswm dros yr oedi oedd 'diffyg hyder' athrawon i gyflwyno'r cwrs. Teimlai athrawon y rhoddid yr argraff mai bai athrawon oedd yr oedi a bod yna ddiffyg arnynt hwy. Mae cryn bwysau yn gallu bod ar athrawon hefyd oddi wrth Estyn, y consortia, Awdurdodau Lleol. Mae'n rhaid cydnabod hefyd fod y bobl hyn yn gallu cefnogi athrawon ac mae rhai enghreifftiau da o hyn.

**Gofynion yn newid yn barhaus** – mae athrawon wedi datblygu bellach i fod yn weithwyr cymdeithasol, yn rhieni, yn arbenigwyr iechyd a diogelwch, yn gwnselwyr ayb ayb. Mae athrawon yn teimlo nad ydynt yn gallu canolbwyntio ar addysgu. Un enghraifft o hyn yw'r galw cynyddol ar athrawon cynradd i newid cewynnau plant. Mae rhieni yn teimlo mai swyddogaeth athrawon yw dysgu popeth i'w plant – gan gynnwys sgiliau elfennol y dylai rhieni eu cyflwyno a'u dysgu.

**ARWEINWYR YSGOLION**

*Rhai ffactorau penodol sy'n effeithio ar recriwtio a chadw arweinwyr ysgolion*

**Llwyth gwaith/Gofynion –** Ynanffodus, does dim terfyn ar yr uriau mae disgwyl i arweinwyr fod yn gweithio. Mae athrawon, rhieni, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, yn disgwyl i arweinwyr ysgolion fod ar gael bob awr o'r dydd a phob dydd o'r flwyddyn.

Eto, mae trafodaethau ac ymgynghori o ran hyn wedi rhygnu ymlaen ers sawl blwyddyn, ac hynny heb unrhyw newid i'r sefyllfa.

**Cyfrifoldebau amrywiol y swydd/Disgwyliadau –** Mae disgwyl i benaethiaid fod yn arbenigwyr ar bob math o agweddau ar fywyd ysgol – Iechyd a Diogelwch, gwaith cymdeithasol. Wrth i broblemau gynyddu yn y gymdeithas, mae ysgolion dan bwysau cynyddol. Mae UCAC yn croesawu unrhyw gamau a wneir i wneud ysgolion yn llefydd mwy diogel, ond mae'n gresynu at y pwysau ychwanegol a'r atebolrwydd cynyddol a roddir ar arweinwyr ysgolion. Yn sgil y dirwyiad mewn ymddygiad a'r perygl o ddigwyddiadau treisgar, mae gofyn i bob ysgol mewn rhai siroedd ddatblygu eu cynlluniau diogelu eu hunain ac amserlennu ymarferion hyfforddi. Bydd angen profi effeithiolrwydd y dogfennau a'r canllawiau. Efallai yn sgil hyn y bydd angen diwygio dogfennau. Gofynnir i ysgolion adolygu eu cynllun bob blwyddyn neu'n amlach os oes newidiadau pwysig e.e staff allweddol. Bydd angen i ysgolion gadw cofrestr ganolog o'r trefniadau, nodi dyddiad ymarferion hyfforddi digwyddiadau difrifol a'r dyddiad y cafodd

y cynllun gweithredu ei adolygu. Mae'r bwriad yn un clodwiw ond mae'n straen ychwanegol ar unigolion sydd eisoes dan bwysau mawr. Mae'r angen i'r Llywodraeth gynnig arweiniad clir yn hyn o beth yn amlwg.

**Atebolrwydd –** Mae pwysau affwysol ar arweinwyr, gan eu bod yn atebol i ddysgwyr, rhieni, staff, Awdurdodau Lleol, consortia, Estyn. Mae'r pwysau hyn wedi arwain at salwch meddwl i nifer o arweinwyr neu wedi eu digalonni i'r fath raddau eu bod yn gadael y proffesiwn, er mwyn cael gwell cydbwysedd bywyd/gwaith.

**Toriadau ariannol –** Penaethiaid sydd fel rheol yn gorfod arwain y broses o benderfynu ar ddulliau o arbed arian. Mae hyn yn gosod pwysau mawr ar eu hysgwyddau, yn enwedig pan fo'n rhaid cwtogi ar staff ayb. Mae gorfod wynebu penderfyniadau anodd, megis diswyddo staff (sy'n gydweithwyr ) er mwyn mantoli'r gyllideb yn gosod straen aruthrol ar unigolion. Mae'n benderfyniad nad yw pobl am ei wynebu ac o'r herwydd maent yn bodloni ar gyflogau is, gan aros mewn swydd athrawon cyffredin.

**AMRYWIAETH Y GWEITHLU**

Mae'r mwyafrif y gweithlu addysg, fel mwyafrif poblogaeth Cymru, yn wyn. Mae'n bwysig bod unrhyw unigolyn o leiafrif ethnig yn cael ei groesawu i'r proffesiwn ac nad oes unrhyw ragfarnau hiliol yn ei (h)erbyn.

Mae 80% o athrawon Cymru yn perthyn i'r categori 'Gwyn', gyda 13% heb nodi eu cenedligrwydd, felly dim ond 7% o athrawon sydd o gefndir ethnig.[3] Rhaid cofio fod 93.8% o boblogaeth Cymru yn 'wyn[4]', ond rydym yn croesawu unrhyw fenter i annog mwy o unigolion o leiafrifoedd ethnig i ymuno â'r proffesiwn, er mwyn cael gweithlu amrywiol a chynhwysol.

Mae 75.6% o'r gweithlu yn fenywod a dim ond 24.4% yn ddynion[5]. Nid yw hyn yn adlewyrchiad teg o gymdeithas ac mae cael amrywiaeth o athrawon benywaidd/gwrywaidd yn llesol i ddysgwyr o bob oed.

Mae hi'n hollbwysig bod cynifer â phosibl o athrawon Cymru yn siarad Cymraeg ac yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ar hyn o bryd 33% o athrawon Cymru sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg a 26.5% sy'n nodi eu bod yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O gofio dyheadau Bil y Gymraeg ac Addysg, mae'n bwysig bod mwy a mwy o athrawon yn cael eu hyfforddi sy'n gallu siarad Cymraeg a dysgu drwy gyfrwng yr iaith.

[3] Fel yr uchod

[4] https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html

[5] Ystadegau Blynyddol ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghymru 2024 (CGA)

Er mwyn cael mwy o siaradwyr Cymraeg, mae angen mwy o addysg Gymraeg ac er mwyn cael mwy o addysg Gymraeg, mae angen mwy o athrawon sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhaid mynd ati o ddifrif i sicrhau hyn. Lluniwyd cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg yn 2022, ac mae'n cynnwys rhai syniadau i fynd i'r afael â'r broblem. Fodd bynnag, tybed faint o waith rhagweithiol sy'n cael ei wneud i ddenu athrawon cyfrwng Cymraeg a thybed faint o werthuso gwirioneddol a monitro sydd ar gynllun 2022? Mae enghreifftiau gwych o bobl sydd wedi mynd i'r afael â'r her o ddysgu'r iaith ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen gwneud mwy o ddefnydd o'r enghreifftiau arbennig hyn, er mwyn annog mwy i ddilyn eu hesiampl. Mae'n allweddol fod y Llywodraeth yn ystyried yn llawn arfer mewn gwledydd eraill lle mae cydnabyddiaeth clir fod gallu addysgu mewn dwy iaith yn sgil ychwanegol gwerthfawr, ee Seland Newydd ac Iwerddon, yn hyn o beth yn ogystal.

## BETH FELLY YW EFFEITHIAU'R MATERION A AMLINELLIR UCHOD?

### EFFAITH AR DDYSGWYR

**Diffyg dilyniant a chysondeb –** Mae prinder athrawon yn ein hysgolion a niferoedd uchel o athrawon yn gadael y proffesiwn yn golygu nad oes dilyniant a chysondeb i ddisgyblion mewn rhai pynciau neu ar rai cyfnodau yn eu haddysg. Mae diffyg cysondeb yn gallu cael effaith negyddol ar safonau cyrhaeddiad disgyblion.

**Llai o arbenigedd pynciol –** Gyda llai o athrawon yn ein hysgolion, yr hyn sy'n digwydd yn fynych yw bod athrawon yn gorfod dysgu pynciau nad ydynt yn arbenigwyr ynddynt. Gall hyn arwain at addysg israddol mewn rhai pynciau, gan arwain mewn rhai achosion at lai yn astudio pynciau penodol gan nad yw eu hathrawon wedi dangos yr un arbenigedd a brwdfrydedd tuag at y pynciau hynny.

**Llai o athrawon –** Mae llai o athrawon yn golygu dosbarthiadau mwy, ac mewn dosbarthiadau o'r fath, mae unigolion yn derbyn llai o sylw ac mae perygl o'r herwydd i safonau ostwng.

### EFFAITH AR GYFLAWNI DIWYGIADAU ADDYSGOL

Mae'r diwygiadau diweddaraf i gyrsiau 14-16 yn cynnig ystod ehangach o bynicau, ond heb yr athrawon i gyflwyno'r pynciau hyn, bydd y dewis yn crebachu

Mae llai o athrawon yn mynd i olygu mwy o lwyth gwaith ac felly llai o amser i baratoi ar gyfer cyflwyno diwygiadau addysgol newydd

### EFFAITH AR ATHRAWON A'R GWEITHLU EHANGACH

Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll, mae'r sefyllfa'n argyfyngus, wrth i fwy a mwy o bwysau gael eu rhoi ar yr athrawon sydd yn dal yn y proffesiwn. Mae'r sefyllfa argyfyngus bresennol yn debygol o waethygu'r sefyllfa ymhellach.

**MYND I'R AFAEL Â RECRIWTIO A CHADW**

Ymddengys fod rhai o'r cynlluniau sydd wedi eu cyflwyno yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ymatebion ad hoc, yn hytrach nag yn gynlluniau sydd wedi eu cynllunio'n ofalus. Mae yna enghreifftiau o bobl yn dilyn cyrsiau hyfforddi i fod yn athrawon er mwyn cael grant/bwrsari ac yna'n dilyn gyrfa mewn maes arall. Mae angen sicrhau fod yna feddwl cydlynus yn hyn o beth, gyda chysylltiad rhwng hyfforddi, recriwtio a chadw. Rhaid marchnata a hyrwyddo'r proffesiwn, gan roi sylw ac ystyriaeth ofalus i bryd mae myfyrwyr yn penderfynu ar drywydd eu gyrfa, er mwyn gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar eu dewis. Mae angen cydweithio gyda swyddogion gyrfaoedd, gan ystyried pwysigrwydd cyfnodau e.e. Blwyddyn 9 (dewis pynciau), Blwyddyn 11 (dewis pynciau safon Uwch), cyfnod pan fo myfyrwyr yn ystyried opsiynau ar ôl graddio ayb.

Mae angen cydweithio gyda'r sawl sy'n cynnig cyrsiau hyfforddi i athrawon a sicrhau bod cyfleoedd ar y cyrsiau hynny i drwytho myfyrwyr yn y Gymraeg. Dylid cynnwys rhywfaint o hyfforddiant Cymraeg ar bob cwrs AGA yng Nghymru, fel bod gan bawb a hyfforddwyd yng Nghymru rywfaint o afael ar yr iaith.

Beth am alluogi myfyrwyr i ddilyn trywydd academaidd a thrywydd ym myd addysg a dechrau addysgu'n rhan amser, wrth iddynt ddilyn cyrsiau academaidd pellach?

Os rhoddir arian i ddenu pobl i ymuno â'r proffesiwn, mae angen olrhain gyrfa'r athrawon hynny sydd wedi elwa o'r cynlluniau recriwtio hyn, gan sicrhau bod yr arian yn cael ei wario ar bobl sydd yn aros yn y proffesiwn ac sydd yn dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad. Y perygl yw fod pobl yn derbyn yr arian ond nad ydynt yn aros yn y proffesiwn neu'n sicr nad ydynt yn aros yn y proffesiwn yn ddigon hir.

Mae angen sicrhau cefnogaeth gadarn a mentora o safon uchel ar athrawon newydd. Mae tuedd wedi bod i gynlluniau mentora i fod yn ymarfer o dicio blychau, yn hytrach nag yn gynlluniau sy'n cynnig cefnogaeth gadarn, gynhaliol.

Nodwn eto pa mor bwysig ydyw i fynd i'r afael â llwyth gwaith yn effeithiol er mwyn sicrhau fod agwedd gadarnhaol ymysg y gweithlu presennol.

Mae angen gweld bod y Llywodraeth yn gwrando ar athrawon ac yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n bodoli. Nid darparu pecyn cymorth (toolkit) yw'r ateb i bopeth. Nododd Jeremy Miles yng Nghynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn 2022 fod angen gweithredu 'radical ac arloesol'. [6]

[6] Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg (Llywodraeth Cymru - 2022)

**CASGLIADAU**

Mae hi'n amlwg bod y sefyllfa'n argyfyngus a bod angen mynd i'r afael â'r broblem.  Nid yw hwn yn fater hawdd, ond rywsut neu gilydd mae angen gwneud rhywbeth am lwyth gwaith, lles, gweithio hyblyg a phortffolio gyrfa.  Mae lles disgyblion ac athrawon yn y fantol.  Rydym mewn perygl o golli athrawon cydwybodol a da, athrawon fyddai'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ddisgyblion.  Mae angen denu mwy o athrawon a sicrhau fod ganddynt ddigon o amser i baratoi a marcio/asesu o fewn amser penodol a'u bod yn cael y parch dyledus gan ddysgwyr a rhieni.

O gofio geiriau Nelson Mandela mai addysg yw'r 'Arf mwyaf effeithiol i newid y byd', mae angen sicrhau fod gennym y gweithlu angenrheidiol i sicrhau dyfodol llewyrchus i blant a phobl ifanc Cymru.